

Llun10<sup>fed</sup> Ebrill 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Castell-nedd Port Talbot a'r Tîm Cymorth,

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Aseiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Fawrth 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r aseiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich aseiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Castell-nedd Port Talbot a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. Dylai eich aseiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich aseiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Hoffwn gychwyn drwy gymeradwyo'r ymdrech amlwg a wnaethpwyd gennych i strwythuro eich asesiad mewn fformat arloesol a diddorol, wedi ei ddylunio o gwmpas hygyrchedd y rhyngryd. Wrth ddarllen drwy eich asesiad ar-lein mae'n braf gweld y modd yr ydych wedi integreiddio gwybodaeth ansoddol o'ch ymgysylltiad, ac mae hyn yn helpu i wneud eich asesiad yn fywiog a pherthnasol.

Roeddwn yn hapus i weld eich bod wedi cychwyn yn dda drwy **ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau** yn natblygiad eich asesiad, ac i weld y ffordd gadarnhaol y defnyddiwyd data ansoddol i ddarlunio pob dogfen thematig a'r wyth proffil ardal. Buaswn yn eich annog i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Rydych wedi cychwyn yn dda wrth feddwl am integreiddio materion a themâu, ac mae yna rai enghreifftiau grymus o awduron yn ystyried pwnc o fewn naratif ehangach, sy'n eu galluogi i archwilio'r gydberthynas rhwng pynciau eraill neu benderfynyddion llesiant – mae'r adrannau ar y dreftadaeth naturiol a bioamrywiaeth o bwys arbennig. Mae hefyd yn ddefnyddiol i weld sut yr ydych wedi mynd i'r afael â'r nodau llesiant cenedlaethol ar gychwyn eich pedair dogfen thematig, gyda disgrifiad o ba nodau sy'n berthnasol. Mae hyn yn rhoi sylfaen dda ar gyfer ystyried rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau yn y gwaith o **facsimeddio'ch cyfraniad** i'r nodau, fel rhan o gynllunio llesiant.

Mae yna rai enghreifftiau da yn eich asesiad o'r defnydd o ddata **hirdymor** yng nghyswllt llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, tai, newid economaidd a newid hinsawdd ac mae eich adrannau ar 'dueddiadau'r dyfodol' yn rhoi strwythur da i chi adeiladu arno. Byddai'n ddefnyddiol petaech yn rhoi ystyriaeth fwy cyffredinol i'r hirdymor, yn arbennig drwy feddwl am oblygiadau hirdymor rhai materion i lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt. Mae hwn yn faes lle buaswn yn eich annog i dalu mwy o sylw i'r hyn a ddywedir wrthyhych gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio'n** hanfodol i hyn i gyd – yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwyd i roi gofod a chaniatâd i bobl

archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi roi cyngor i chi ar y modd y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-Nedd Port Talbot

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ar *Aseiad o Lesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot* a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym Mawrth 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect<sup>1</sup> o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot: Aseiad Llesiant, Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol, Diwylliannol, Mawrth 2017
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot: Port Talbot; Cwm Tawe, Cwm Dulais, Cwmaman, Pontardawe; Cwmafan, Cwm Nedd, Mawrth 2017
- Trafodaeth dros y ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 7fed Ebrill ac adolygiad o'r dudalennau gwe'r BGC

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 - Ile mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli - ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad a methodoleg ac ar y dadansoddiad o'r aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

---

<sup>1</sup> Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Tra'n bod yn deall o'n sgwrs dros y ffôn bod yr Aseidiadau Llesiant yn broses barhaus, a bod gwaith pellach ar y gweill, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio llesiant ar draws y BGC.

## 2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data mewn aseidiadau, ei ddadansoddiad a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau. Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ffyrdd o adlewyrchu llesiant; yn achos Castell-nedd Port Talbot drwy bedair thema llesiant: economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ac ystod eang o 'bynciau' o dan bob thema.

Nodwn fod y BGC yn anelu at ddarparu trosolwg o "*gryfderau ac asedau pobl a chymunedau*" a "*heriau a chyfleoedd a wynebir gan Gastell-nedd Port Talbot yn awr ac yn y dyfodol*". Bydd ein sylwadau yn yr adborth hwn yn ystyried i ba raddau y cyflawnwyd hyn yn yr asesiad. Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn yr adnabuwyd y pynciau hyn o fewn y bartneriaeth a bod trafodaeth wedi digwydd am y modd y mae'r rhain yn darlunio'r pedair thema llesiant. Byddai'n ddefnyddiol i'r asesiad egluro paham y mabwysiadwyd yr ymagwedd hon gan egluro paham y dewiswyd y rhain fel materion allweddol ar gyfer cymunedau ar draws yr ardal, yn hytrach na materion eraill.

Yn nhermau'r nodau cenedlaethol, mae'n braf gweld eich bod wedi mynd i'r afael â'r rhain ar gychwyn pob un o'r adrannau thema, gyda disgrifiad o ba nodau sy'n berthnasol. Gallech adeiladu ar hyn drwy egluro'n fanwl *paham* mae nodau arbennig yn berthnasol i gynnwys yr adran. Gall y bydd y rhain yn mynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng cynnwys yr adran sydd ar goll ar hyn o bryd - er enghraifft:

- Llesiant economaidd – lle mae cydnherthedd a chydlyniad yn amlwg yn berthnasol i'r data
- Llesiant diwylliannol – lle gellid adlewyrchu cydnherthedd fel canlyniad i'r adran rymus ar dreftadaeth naturiol
- Llesiant amgylcheddol – lle mae'r nod fyd-eang yn amlwg yn berthnasol i'r cynnwys ar fioamrywiaeth a newid hinsawdd

Credwn ei bod yn bwysig i adeiladu ar yr ymagwedd bresennol, yn arbennig er mwyn i'r BGC fedru deall sut y gall facsimeiddio'i gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Beth ddywed hyn wrthym am gyfraniad y pynciau hyn i'r nodau? Sut fedrai'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf yn yr ardaloedd a nodwyd?

Pa rai yw ardaloedd gweithgaredd y BGC lle mae angen gwella cyfraniad? Ble mae'r cyfleoedd ar gyfer cyflawni nodau niferus drwy fynd i'r afael â materion allweddol? Oes yna unrhyw nod nad yw'r BGC yn cyfrannu ato drwy'r 'pynciau' a nodwyd ac angen iddynt ddeall sut y *gallent* gyfrannu (e.e. y nod bydeang?).

Deallwn y rhesymeg wrth wraidd eich adran ar integreiddio – a gwelwn rai enghreifftiau da o feddwl mewn dull integredig. Credwn y gallai ffocysu ar y nodau roi ffrâm ddefnyddiol i chi ar gyfer deall ac archwilio'r gydberthynas hollbwysig rhwng yr ystod eang o bynciau a adnabuwyd gennych yn yr asesiad (caiff hyn ei archwilio ymhellach ym mhwynt 8 o dan *Integreiddio* isod).

### 3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn y bu llawer o feddwl dwys am yr wyth ardal a ddewiswyd, a hyn wedi ei drwytho gan broses y Cynllun Datblygu Lleol, yr ystyriwyd y byddai'n taro tant gyda wardiau o fewn Castell-nedd Port Talbot.

Deallwn o'n sgwrs yr anhawster o ddatblygu darlun lleol o lesiant o bersectif meintiol, a bod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu'r wyth 'proffil' ardal. Mae yna le i wella, yn arbennig yn yr adrannau ar lesiant economaidd, diwylliannol a chymdeithasol lle gellid rhoi gwell dealltwriaeth o wahaniaethau o fewn a rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau ac yn arbennig faterion lleol difrifol.

Mae thema'r amgylchedd yn rhoi meincnod ar gyfer adrannau thema eraill yn yr asesiad, drwy ddarparu data lleol ardderchog, data ansoddol, dehongliad a naratif i ddeall y cyd-destun lleol o fewn Castell-nedd Port Talbot – er enghraifft yn nhermau coedwigoedd a thanau gwyllt.

Mae'n braf bod peth data LSOA ac MSOA wedi ei ddefnyddio yn y dogfennau thema (yn arbennig tloidi) gan roi mewnwelediad clir i lefel seiliedig ar le. Fodd bynnag, gellid mynd i'r afael ag adeiladu gwell darlun o lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer y pynciau a ddewiswyd, yn syml iawn drwy ofyn y cwestiwn "*Oes yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol a phenodol rhwng ardaloedd?*" yn erbyn pob un, a gofyn i'r awduron neu gyfranwyr ystyried y cwestiwn hwn, yn ogystal â rhestru ffynonellau data a bylchau.

Yn gyffredinol, mae angen gwell *eglwriad* o'r gwahaniaethau gofodol ar draws yr amrywiaeth o gymunedau yn yr ardal. Pam mae cymaint o fwllch mewn disgwyliad oes rhwng gwahanol rannau o'r ardal, beth yw'r penderfynyddion? Oes yna wahaniaethau yn hyfywedd canol trefi ar draws Castell-nedd Port Talbot yn seiliedig ar fusnesau newydd? A yw ffyrdd o fyw afiach a phroblemau gordewdra'n gyson ar draws yr ardal neu a ydynt yn fwy amlwg mewn cymunedau arbennig? Ble mae'r sector gwirfoddol yn fwyaf gweithgar?

Credwn fod hyn yn dangos angen mwy cyffredinol am ddehongliad o'r data a gyflwynwyd, gan fod data'n aml iawn yn cael ei adael i sefyll ar ei ben ei hunan a byddai'n elwa o gael mwy o archwiliad ac o gael ei osod mewn cyd-destun – yn cynnwys digonolrwydd ymyriadau cyfredol. A yw rheoli llifogydd ar hyn o bryd ym Mhort Talbot yn ddigonol ar gyfer ymdopi ag effeithiau'r hinsawdd ac a yw ymyriadau wedi eu hanelu at fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae 64% o gartrefi'n amddifad yn ddigonol? A fydd llifogydd yn effeithio ar yswiriant, datblygu economaidd ac ansawdd yr amgylchedd mewn ardaloedd arbennig?

Gellid gwella'r asesiad ymhellach drwy gynnwys data ar ynni critigol, dŵr, trafndiaeth a seilwaith diogelu'r arfordir. Golyga hyn nid yn unig ddisgrifiad, ond ddehongliad o heriau allweddol a chfyfaddawdau (gweler sylwadau nes ymlaen ym mhwynt 6). Mae'r math hyn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, darpariaeth gwasanaethau a llesiant cymunedol y dyfodol.

Yn gyffredinol, buaswn yn gobeithio gweld eich asesiad yn datblygu i sefydlu darlun mwy ansoddol a dealltwriaeth o'r asedau a heriau cymunedau arbennig ar draws Castell-nedd Port Talbot fel rhan o'ch proses gynllunio.

#### 4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn wedi eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig ac unigolion.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o fewnwelediad iddynt i brofiadau pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, weithredu ar y mewnwelediadau hyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflwyno gwasanaethau. Mae'n amlwg bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth wedi bod yn rhan o'r ymagwedd hon ac rydym yn myfyrio ar hynny nes ymlaen ym mhwynt 8 o'r adborth hwn.

Yn gyffredinol ymddengys mai cyfyngedig yw'r dadansoddiad o oblygiadau'r sefyllfa gyfredol (neu sefyllfa bosibl yn y dyfodol) i anghenion gwasanaethau cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gyffredinol ac o fewn cymunedau. Fel y nodwyd eisoes, o dan lawer o bynciau, cyfyngedig yw'r dehongliad o'r data sydd ei angen i'n galluogi i ddeall digonolrwydd, pwysau a'r angen i addasu gwasanaethau cyhoeddus i gwrdd ag anghenion y gymuned. Yn ogystal â disgrifiad o'r sefyllfa bresennol ar dlodi, gwasanaethau cyhoeddus a llifogydd, er enghraifft, pa heriau a gyflwynir gan y rhain i'r sector cyhoeddus dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor? Beth yw heriau'r gwasanaethau, heriau ariannol a gofodol, a sut y gallent newid dros amser yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot? Dylai fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol fynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn trwytho'r BGC am ble fyddai gweithredu ar y cyd yn cael yr effaith mwyaf arwyddocaol.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod yr ymgynghoriad wedi rhoi peth mewnwelediad i anghenion dinasyddion mewn gwahanol ardaloedd, ac mae'n amlwg bod yna lawer o dystiolaeth yn y fan hon y gellid ei ddwyn at ei gilydd mewn crynodeb ehangach o fylchau arwyddocaol mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a'r heriau i wasanaethau dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Telir sylw pellach i hyn ym mhwynt 6 ar 'Heriau' isod.

## 5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o gydbwysu data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Yn gyffredinol, fel y nodwyd, mae pa mor dda mae pob pwnc yn disgrifio cynnwys strategol ar gyfer y 'mesurau' a ddefnyddir, ac ansawdd dehongli'r data meintiol o dan bob pwnc yn amrywio. Mae angen mwy o gysondeb drwyddi draw yn y dogfennau i egluro pam mae rhai materion o bwys arbennig i Gastell-nedd Port Talbot; goblygiadau posibl y sefyllfa i lesiant cymunedol; a yw'r sefyllfa gyfredol yn cael ei rheoli'n effeithiol, a goblygiadau'r sefyllfa i wasanaethau cyhoeddus. Yn aml mae data meintiol yn cael ei ddisgrifio yn hytrach na'i ddehongli. Fodd bynnag, mae data ansoddol o'r ymgynghoriad ar y cyfan yn cael ei ddefnyddio'n dda i ddarlunio beth sydd o bwys i bobl am wahanol agweddau ar lesiant.



Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth mwy penodol ar bob thema o dan bob thema llesiant; cynhwysir adborth ar yr adrannau Tueddiadau'r Dyfodol nes ymlaen yn y ddogfen hon:<sup>2</sup>

**Amgylcheddol:** mae cysylltiad clir rhwng y pum is-thema: dŵr; aer; tir; bioamrywiaeth; hinsawdd â'r nodau llesiant cenedlaethol, ond dylid cael cyfeiriad cliriach hefyd at y nod fyd-eang. Mae'r adran hon yn rhoi cyd-destun hanesyddol da, dehongli lleol a chyffredinol o ddata meintiol ac ansoddol. Mae cynnwys is-bennawd "Pam mae hyn yn bwysig?" yn gymeradwy a dylid defnyddio'r ymagwedd hon mewn adrannau thema eraill o'r asesiad. Ar gyfer rhai o'r materion hyn gellid egluro'n well beth yw goblygiadau llesiant – er enghraifft:

- llif dŵr isel [ar amaeth a'r economi?]
- ansawdd *aer* {ar gyflyrau anadlol?}
- mae'r adran *tir* yn enghraifft arall o hyn – rhoddir llawer o sylw i reoli bywyd gwyllt – ond llai i effeithiau posibl ar iechyd o gael mynediad i fannau agored gwyrdd a'r awyr agored – beth yw effeithiau llesiant a'r potensial i wella llesiant o gael mwy o fynediad i'r amgylchedd?
- *bioamrywiaeth* – mae'r asedau'n glir, ond mae angen dealltwriaeth gliriach o ba bwysau sy'n arbennig o arwyddocaol yng Nghastell-nedd Port Talbot – ble mae'r pwysau ac a ydym ar hyn o bryd yn gwneud digon?
- *newid hinsawdd* – gellid gwella hyn drwy ddehongli effeithiau cenedlaethol o Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd (CCRA) ar gyfer yr ardal leol – beth yw effaith tebygol mwy o lifogydd afonol ac arfordirol o gofio'r buddsoddiad presennol mewn rheoli perygl lifogydd? Gellid gofyn hefyd am ynni adnewyddol – beth yw'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol?

**Economaidd:** mae yna gysylltiad clir â'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' – ond nid eraill – sy'n berthnasol i'r data a ddefnyddir yn yr adran, yn cynnwys cydnerthedd [economi gwyrdd] byd-eang [buddsoddi a swyddi], cydlyniad [trafnidiaeth]. Mae'r data'n ffocysu ar incwm; cyflogaeth; addysg a sgiliau; seilwaith a thechnoleg; twristiaeth. Ar y cyfan gellid cael mwy o gyd-destun strategol neu ddeongliadol yn yr adran hon, er enghraifft:

- data ar *incwm*, lle mae'r testun yn disgrifio'r data yn y tabl ond nid yr hyn a ddywed wrthym, a thlodi tanwydd yn rhoi un ffaith heb unrhyw gyd-destun;
- *cyflogaeth*: mae yna ddatganiad am adfywio ag angen iddo roi mwy o gyd-destun ac eglurhad – pam nad yw adnewyddu wedi gweithio? Beth mae lleoedd sy'n fywiog ac ymarferol yn gobeithio ei wneud i ganol trefi?
- Mae'r fasnach *fanwerthu*'n dda – ond pa mor hyfyw yw canol trefi?

---

<sup>2</sup> Mae adborth ar Dueddiadau'r Dyfodol yn cael eu cynnwys nes ymlaen yn y ddogfen

- *addysg* – “mae cysylltiad rhwng cymwysterau, cyflogaeth ac incwm â llesiant economaidd” Pam? Sut mae'n amlygu ei hunan yng Nghastell-nedd Port Talbot?
- *seilwaith a thechnoleg* – beth yw anghenion trafndiaeth, seilwaith, asedau a band eang yng Nghastell-nedd Port Talbot
- *Cyfleoedd ar gyfer datblygu tir* – mae'n amlwg bod y rhain yn asedau – ond mae angen egluro'n well pam y maent yn cael eu cynnwys
- *Straen meddyliol* mae hwn yn ganfyddiad diddorol o'r ymgynghoriad sy'n haeddu mwy o ddehongli i gysylltu â llesiant cymdeithasol a'r galw ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Byddai'r adran hon ar ei hennill o gael mwy o eglurder ar ba agweddau ar yr economi sy'n gryf a bregus, a beth mae'r ymyriadau a restrir yn bwriadu ei wneud. Naratif sy'n ffocysu ar ddata a dangosyddion yw hwn sy'n rhoi darlun cyfyngedig o economi lleol, ac a fyddai ar ei ennill o gael mwy o ystyriaeth o rôl: yr economi anariannol, asedau economaidd y boblogaeth sy'n heneiddio, y gydberthynas rhwng economi'r ardal ag economïau lleol eraill yn cynnwys Bae Abertawe a Bargeinion Dinas Caerdydd (tu hwnt i ddyheadau cyffredinol yn ymwneud â swyddi a seilwaith); a dealltwriaeth o effaith patrymau cymudo ar lesiant.

Hefyd, tra'n bod yn deall bod Brexit yn creu ansicrwydd mawr, mae effeithiau posibl Brexit, er enghraifft, ar gyllid adnewyddu, yn fater allweddol a fydd yn effeithio ar draws themâu llesiant. Dylid cynnwys peth myfyrio ar effeithiau tebygol ar ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot yn yr asesiad wrth i FGCau symud ymlaen tuag at gynllunio llesiant. Pa rannau o'r economi sy'n debygol o ddirodd os na chaiff ymrwymïadau cyllido cyfredol eu bodloni? Byddai gennym hefyd ddiddordeb i ddeall maint ymgyfraniad (neu ymgyfraniad posibl) y sector preifat, er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o lesiant economaidd lleol.

**Diwylliannol:** Rhoddir data ar y celfyddydau a threftadaeth; yr iaith Gymraeg, chwaraeon a gweithgareddau corfforol; gwirfoddoli; cymudo; crefydd, sy'n cael eu cysylltu â nodau cenedlaethol cydraddoldeb, cydlynïad a diwylliant. Dylid hefyd gynnwys y nod cydnerthedd o gofio'r pwyslais mawr ar dreftadaeth naturiol a bioamrywiaeth. Mae yna ystod eang o ansawdd data a dehongli yn yr adran hon:

- *celfyddydau a threftadaeth:* mae'r adran ar Gelfyddydau Pontardawe yn ardderchog ac yn rhoi meincnod ar gyfer naratif ac asedau diwylliannol, a dehongliad clir o'i fanteision i'r gymuned – tra bo nifer ymwelwyr a rhestrau o asedau mewn mannau eraill yn y ddogfen yn rhoi dim ond ychydig o fewnwelediad.

- yn yr un modd mae'r data ar *chwaraeon a gweithgaredd corfforol* yn dangos y defnydd a wneir o gyfleusterau'r Cyngor ond yn rhoi dim ond ychydig o ddealltwriaeth o rôl bwysig clybiau chwaraeon mewn cymunedau ar draws yr ardal
- *gwirfoddoli* – mae yna wybodaeth dda ar wirfoddoli a'r hyn a wneir gan wirfoddolwyr, ond gellid ei wella drwy roi mwy o wybodaeth ar amrywiadau gofodol a chenedliadol. A yw hyn yn cynrychioli lefelau gwael o wirfoddoli neu botensial y gellid adeiladu arno.
- *crefydd, pobl hŷn a phobl ifanc fo* – nid yw'n glir mae crefydd wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'r drafodaeth ehangach am bobl ifanc a hen bobl.

Eto, ffocws cyfyngedig a roddir i ddiwylliant yn yr ardal drwy ffocysu ar fesurau arbennig. Er gwaethaf rhai cyfeiriadau at y saith proffil ardal, ychydig iawn a geir yn y ddogfen ar *gyfalaf* diwylliannol Castell-nedd Port Talbot ac mae hwn yn rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef yn y gwaith ar yr Asesiad yn y dyfodol. Gallai'r adran hon roi llawer mwy o *ddisgrifiad* o fywiogrwydd diwylliant yr ardaloedd, o gwmpas y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, digwyddiadau, rhwydweithiau gwybodaeth a chyfraniad gwaith gwirfoddol i gymunedau arbennig. Beth yw effaith diwylliannol cyfryngau cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol ar gymunedau? Sut mae canol trefi'n cyfrannu at lesiant diwylliannol ar draws yr ardal?

**Cymdeithasol** : mae'r ffocws ar ffordd o fyw iach; diogelwch; gofal cymdeithasol a 19 is 'fater' yn rhoi ystod eang o ddata, sydd fel adrannau eraill, yn amrywiol ei ddeongliadol a'i gyd-destun, a gellid ei wella – er enghraifft:

- gwell dehongliad o wahaniaethau gofodol: er enghraifft *disgwyliad oes* – pam mae cymaint o wahaniaeth rhwng gwahanol rannau o'r ardal. A yw'r mater am fynediad i fwyd a nodwyd yng Nghwm Aman yn arwyddocaol ac yn symptomatig o broblemau ehangach?
- gwell dehongliad o arwyddocâd er enghraifft *cyflyrau cronig* – a yw'r sefyllfa'n ddifrifol, yn gwella – a yw ymyriadau cyfredol yn gweithio?
- Gwell dealltwriaeth o effaith ymyriadau – a ydym yn gwneud digon, yn ddigon cynnar, er enghraifft ar *iechyd meddwl*?
- Cysylltiadau cliriach rhwng y data a difrifoldeb y mater y mae'r BGC yn mynd i'r afael ag ef – er enghraifft – mae mwy o ddata a thrafodaeth ar frechiadau plant na'r 30% o blant sy'n byw mewn tlodi.
- Deongliadau mwy lleol e.e. ymddygiadau iach, gordewdra, gweithgaredd corfforol – clir ar bwysigrwydd – ond beth a ddywed hyn wrthym am lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot?

Mewn rhai adrannau mae data'n cael ei restru fel set o ystadegau gyda dim ond ychydig o ddehongli o ba mor arwyddocaol ydynt yn yr ardal neu o fewn cymunedau arbennig (e.e. *cymuned, trafnidiaeth*,

*diogelwch digidol*). Yr eithriad yw tai – lle ceir rhaglith sydd yn rhoi peth cyd-destun, ond sy'n dal ag angen rhagor o ddehongli..

Buaswn yn disgwyl gweld mwy o gysondeb yn narpariaeth a'r defnydd o ddata meintiol ac ansoddol drwyddi draw wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## 6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a'r diffygion o fewn yr ardal.

Mae'n amlwg bod nifer o heriau strategol sy'n darparu cefndir i'ch asesiad ag angen eu hystyried, hwyrach, o fewn sylwebaeth ehangach ar gychwyn y ddogfen? Mae'r heriau hyn yn gyffredin i bob ardal yng Nghymru, ond nid yw eu heffaith yn y presennol yn cael llawer o sylw yn y ddogfen – a'r diffyg dehongli ar hyn o bryd, hwyrach, yn golygu mai dim ond dealltwriaeth gyfyngedig a geir o sut mae'r materion canlynol yn effeithio ar lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot: anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd seilwaith; addasu i'r lleihad mewn poblogaeth; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol, dim digon o dai; pobl yn byw mewn tlodi; diwygio lles; effaith yr hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol, newid economaidd.

Mae hwn yn faes lle gallai data a gwybodaeth bresennol eich helpu i osod gwaith y BGC mewn cyd-destun eang strategol. Tra telir sylw i'r heriau hyn o fewn y testun, byddai'n ddefnyddiol i gael dealltwriaeth ehangach fwy integredig o'r modd y maent yn cyberthyn a sut y gallent effeithio ar Gastell-nedd Port Talbot dros y tymor canolig a'r hirdymor. Er enghraifft mae yna gyfaddawdau clir rhwng ansawdd yr amgylchedd, iechyd, gwasanaethau iechyd, y diwydiant dur a seilwaith trafniadaeth – penderfynyddion allweddol llesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot ag angen eu hadlewyrchu'n well ar lefel strategol yn yr asesiad – ac yn yr un modd y lefelau uchel o dlodi ymhlith plant ac mewn cymunedau arbennig ar draws yr ardal.

Credwn y gallai'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn adran thematig yr Amgylchedd gael ei dilyn gan y lleill i ddarparu dealltwriaeth ehangach fwy strategol o heriau llesiant y gellid ei chefnogi gan y data, yn hytrach na'r data'n cyfyngu ar y 'ffrâm' llesiant.

Credwn hefyd y gallai'r asesiad gael ei ddatblygu i ffocysu'n fwy clir ar *asedau* economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal, a beth mae'r asedau hyn yn eu cyfrannu i lesiant cymunedol. Mae'n amlwg bod manteision Canolfan Celfyddydau Pontardawe sy'n cyfrannu i lesiant,

wedi cael eu disgrifio'n dda, ond pa asedau eraill sy'n cyfrannu at lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot?

- Asedau economaidd y boblogaeth sy'n heneiddio, yn nhermau sgiliau, gwirfoddoli, gwariant yn ystod ymdeoliad
- Cryfder y sector cymunedol wrth gefnogi llesiant cymdeithasol, natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi
- Rôl yr economi anariannol mewn llesiant cymunedol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac yn y blaen a lefelau (a chryfderau) gofal di-dâl
- Bywiogrwydd diwylliant o gwmpas y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaeth, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli
- Beth yw cyfraniad posibl yr asedau tir a restrir yn yr adran ar yr economi yn ychwanegol at gyflogaeth?

Gellid hefyd gryfhau'r asesiad (fel y nodwyd ym mhwynt 3) drwy ddarparu gwell dealltwriaeth o'r modd y mae heriau'n amlygu eu hunain mewn gwahanol ardaloedd o Gastell-nedd Port Talbot, a pha gymunedau arbennig sy'n gydnherth neu sy'n agored i gael eu niweidio gan dueddiadau presennol a thueddiadau'r dyfodol.

## 7. Ymgysylltu, ymgyfraniad a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod adroddiad ar wahân yn cael ei gynhyrchu ar yr ymgynghoriad. Buaswn yn eich annog i drefnu bod hwn ar gael ar-lein a buaswn yn hoffi derbyn copi. Roedd yn ddefnyddiol i gael gwell dealltwriaeth o'r broses ymgynghori fel rhan o'n sgwrs, ac i weld o'r dogfennau'r ffordd gadarnhaol y mae data wedi cael ei ddefnyddio i ddarlunio pob dogfen thema a'r wyth proffil ardal. Mae eich defnydd o gymylau geiriau yn hynod o effeithiol wrth gyfleu'r dehongliad ehangach o'r hyn a olyga llesiant i'ch dinasyddion.

Buaswn yn eich annog i ddisgrifio'n fwy clir ddull ac ystod yr ymgynghoriad o fewn yr asesiad ei hunan i gyfeirio darllenwyr ar sut mae ymgynghoriadau wedi cyfrannu at y cynnwys. Yn yr un modd, byddai'n dda i'r asesiad gydnabod cyfraniad gwahanol bartneriaid a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, efallai yn yr

Atodiad. Byddai'n arbennig o ddiddorol i ddeall rôl a chyfraniad y sector gwirfoddol a'r sector preifat yn eich dealltwriaeth o lesiant yn yr ardal, a buaswn yn eich annog i ymgysylltu â'r sectorau hyn fel rhan o'r broses cynllunio llesiant.

Mae hefyd yn glir o'n trafodaeth bod peth dysgu wedi digwydd o fewn y bartneriaeth parthed rhedeg yr ymgynghoriad ar gyfer yr asesiad llesiant a'r asesiad poblogaeth gyda'i gilydd mewn rhai ardaloedd – a gall y bydd yn fanteisiol i redeg y rhain ar wahân yn y dyfodol.

Mae'n beth cadarnhaol bod yr asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a'i fod eisoes yn ddefnyddiol mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Mae'n amlwg bod cyfraniad cryf wedi ei wneud gan bartneriaid allweddol yn nhermau darparu data a chynhyrchu'r dadansoddiad o fewn yr Asesiad. Byddwn yn annog cydweithio pellach yn y misoedd sy'n dod i fynd i'r afael â materion a amlygir yn yr adborth hwn, wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## 8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilios sefydliadol wrth gynhyrchu'r Asesiad.

Nodwn yr adran ar integreiddio ar dudalen 8 o'r asesiad ac mae'n glir eich bod yn cydnabod yr angen i wella'ch ymagwedd. Credwn fod yna rai enghreifftiau ardderchog o ble mae awduron/cyfranwyr wedi ystyried y 'pwnc' o fewn naratif ehangach, gan eu galluogi i archwilio'r gydberthynas rhwng 'pynciau' eraill neu benderfynyddion llesiant – mae'r adrannau ar y dreftadaeth naturiol a bioamrywiaeth o bwys arbennig. Mae hefyd yn gadarnhaol i glywed am ddylanwad grymus y Cynllun Datblygu Lleol ar eich 'detholiad' o Ardaloedd, ac mae'n glir bod data'r CDLI wedi trwytho'r pedair adran thematig yn yr asesiad.

Fodd bynnag mewn llawer o 'bynciau' mae llai o dystiolaeth bod data o bob adran (ac o fewn pob adran) wedi ei ystyried ochr yn ochr â data'r lleill, neu fod cydberthynas wedi ei hystyried.

Ar y sail hon, mae lle i fwy o integreiddio a mwy o archwiliad o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema - er enghraifft, incwm ac iechyd meddwl, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, technolegau newydd a chydlynid cymdeithasol, asedau amgylcheddol ac iechyd a llesiant.

Mae angen archwilio'r gydbertynas rhwng themâu, a'i chydabod fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn. Mae hwn yn rhywbeth i'r BGC ei ystyried fel mater pwysig wrth iddo ddatblygu ei gynllunio llesiant.

## 9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfod ol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Nodir yn dilyn y drafodaeth gyda'r BGC pa mor heriol fu hyn. Roedd yn gadarnhaol i weld eich dull ystyriol o fynd i'r afael â'r mater hwn gan ddefnyddio deunydd sydd ar gael ar lefel Cymru-gyfan, drwy'r gwaith CDLL gan gynnwys adran tueddiadau'r dyfodol o dan bob un o'r pedair thema.

Mae yna rai enghreifftiau da yn yr asesiad lle mae data hirdymor wedi ei ddefnyddio i asesu llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, newid economaidd a newid hinsawdd. Mae lefel y dadansoddi yn adrannau tueddiadau'r dyfodol yn amrywio, ond mae hon yn ffrâm ddefnyddiol i adeiladu arni. Dylai awduron yr adrannau *tueddiadau'r dyfodol* gael eu hannog i ddehongli'r data a darparu neges gliriach ar oblygiadau hirdymor y 'mater' i lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, er enghraifft drwy gynnwys anogeiriaid megis "*felly'r goblygiadau i'r ardal yw...*" Enghraifft yw'r posibilrwydd y bydd 33% o'r boblogaeth yn byw ar eu pennau eu hunain erbyn 2035. Beth yw goblygiadau posibl hyn i lesiant a'r pwysau/cyfleoedd i'r gwasanaethau cyhoeddus fel canlyniad? Mae peth gwaith ardderchog yn yr adrannau hyn ag angen adeiladu arnynt fel rhan o'r broses cynllun llesiant.

Buaswn hefyd yn eich annog i nodi bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor (gweler sylwadau ym mhwynt 11) a hefyd ddatblygu peth mewnwelediad i ba gymunedau sy'n arbennig o agored niwed/gydnerth yn yr hirdymor a pham – drwyddi draw yn eich wyth proffil ardal.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

## 10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae hwn yn rhywbeth a drafodwyd gennym yn ein sgwrs dros y ffôn a chredwn y byddai synthesis mwy manwl o faterion rhanbarthol a thrawsffiniol allweddol sy'n effeithio ar Gastell-nedd Port Talbot yn fanteisiol ar gyfer trwytho'r broses cynllunio llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad eglurach o 'rôl' yr ardal a'i pherthynas ag awdurdodau cyfagos ac o fewn y rhanbarth yn nhermau darpariaeth gofal cymdeithasol, rheoli tirwedd, rheoli perygl llifogydd, ta, bioamrywiol a chydnerthedd seilwaith yn nhermau dŵr, trafniadaeth, ynni a seilwaith gwastraff.

Er bod yna gyfeiriad at brosiectau Dinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe nid yw'n glir beth allai goblygiadau'r prosiect mawr, hirdymor hwn fod i *bob* agwedd ar lesiant cymunedol ar draws Castell-nedd Port Talbot. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlynid, mynediad i wasanaethau, cydraddoldeb trafniadaeth, cydnerthedd ac yn y blaen. Cydnabuwyd hyn yn y sgwrs dros y ffôn gyda chi.

Gellid darparu mwy o fewnwelediad o arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, materion hollbwysig i seilwaith trafniadaeth a natur y gydberthynas ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill. Bydd hefyd yn bwysig i FGCau ystyried casgliadau asesiadau lleol ardaloedd cyfagos wrth i gynhyrchiad y cynllun ddatblygu.

Mae'r ffocws rhanbarthol hwn yn rhywbeth y buaswn yn disgwyl ei weld yn cael sylw yn nyfyniadau'r asesiad yn y dyfodol i drwytho cynllunio llesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, efallai'n ffurfio rhan o gyd-destun ehangach ar gyfer asesu llesiant fel yr awgrymwyd mewn adrannau blaenorol o'r adborth hwn.

Nodwyd gennym o'n sgwrs bwysigrwydd yr asesiad ar gyfer trwytho gwaith gwahanol bartneriaethau rhanbarthol, yn cynnwys y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ac yn ei dro fwydo gwybodaeth newydd o'r gweithgaredd rhanbarthol hwn yn ôl i'r asesiad. Mae'n amlwg bod gan y BGC rôl bwysig mewn hwyluso gwybodaeth a chynllunio ar y gwahanol lefelau llywodraethu hyn.



## 11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae hwn yn faes lle gallai proses asesu Castell-nedd Port Talbot gael ei gwella gan mai prin ar hyn o bryd yw'r arwyddion o fylchau data, ac nid oes llawer o fyfyrion ar ansawdd data ychwaith.

Buaswn yn eich annog i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o fylchau data a chrynhof'r rhain ar gyfer eich 'pynciau' gan ffocysu hwyrach ar:

- beth sydd arnom angen ei wybod dros y tymor byr ar gyfer yr asesiad
- ble mae angen i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o lesiant fel BGC

Bydd dadansoddiad cyffredinol o'r math hwn hefyd yn bwysig ar gyfer deall a oes yna unrhyw batrymau mewn anghenion data o'r pynciau'n gyffredinol, a beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai'n fanteisiol i'r BGC ddeall sut y gallai wella'i ddealltwriaeth a ble all fod yna angen adnoddau.

Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith cyfredol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd o anghenion y BGC i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Archwilio Cymru.

## 12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimeddio* eu cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae yna weithgareddau sy'n dangos yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

*Hirdymor* – drwy ddefnyddio data hirdymor o dan y pedair thema

*Ymgysylltu* – drwy'r gwaith ymgynghori yr ymgysylltu ag ef

*Cydweithio* – drwy ddim prosiect y BGC ac ymgysylltu rhanddeiliaid

*Atal* – drwy'r drafodaeth o ymyriad cynnar yn arbennig yn nhermau datblygiad yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Fodd bynnag ychydig o dystiolaeth a geir sy'n dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei defnyddio fel modd o weithio yn yr asesiad hwn. Nid oes unrhyw gyfeiriad at yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio fel y nodir yn y statud.

Mae'n bwysig i'r BGC ddefnyddio'r egwyddor hon i ddylanwadu ar eu dewis o wrthrychau llesiant yn y cynllun llesiant a dangos, wrth ddewis y gwrthrychau hynny:

- bod mesurau ataliol wedi eu hystyried
- bod cydweithio wedi cael ei archwilio
- bod yr unigolion a'r cyrff priodol wedi ymgyfrannu
- bod ymagwedd integredig wedi ei mabwysiadu
- bod effeithiau hirdymor ar gymunedau wedi eu hystyried

Mae hwn yn faes lle buaswn yn disgwyl gweld y broses asesu'n gwella rhwng nawr a chynhyrchiad y cynllun.

### 13. Edrych ymlaen at gynhyrchu cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Dyma faes arall lle gellid, yn ein barn, wella'r asesiad. Mae angen i'r ddogfen a'r deunydd gwe atodol fod yn gliriach am: y camau nesaf; sut fedr unigolion a sefydliadau barhau i ymgyfrannu; yr amserlen, a beth mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud a sut fydd y deunydd a gasglwyd ar gyfer yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i fformiwleiddio amcanion y BGC.

Mae'n bwysig bod yr eglurhad ar y wefan yn cyfleu yn fwy clir mai bwriad yr asesiad yw helpu'r BGC drwy roi dystiolaeth ar gyfer datblygu cynllun ag amcanion llesiant ar gyfer gweithredu ar y cyd. Mae angen eglurhad clir hefyd yn y ddogfen asesu ei hunan

### 14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r

ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod lefel yr ymgysylltiad drwy'r arolwg llesiant yn arbennig o gadarnhaol. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. O bwys arbennig i'r Swyddfa yw eich bod yn adeiladu ar y gwaith hwn i roi darlun strategol cliriach o lesiant drwy ddehongli'r data o fewn cyd-destun ehangach o dan bob thema.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad:

*Cyd-destun strategol* – sefydlu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer Castell-nedd Port Talbot dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r 'sefyllfa' ar gyfer pynciau.

*Ardal a lle* – rhoi gwell dealltwriaeth o lesiant o fewn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot, ei threfi, cymoedd ac ardaloedd gwledig er mwyn adlewyrchu'n well y materion allweddol ar gyfer llesiant mewn gwahanol ardaloedd – a datblygu proffiliau'r wyth ardal i helpu'r broses hon.

*Dadansoddiad ac arwyddocâd* – mwy o eglurhad o'r modd y mae'r pynciau'n effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, ac ar wasanaethau cyhoeddus a'u harwyddocâd yn *benodol* yng Nghastell-nedd Port Talbot

*Integreiddio ar draws themâu* – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd ar gyfer y pynciau a goblygiadau hyn i lesiant

*heriau ac asedau* - rhoi synthesis cliriach o heriau i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor a dealltwriaeth ehangach o asedau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl mewn llesiant ar draws yr ardal.

*Cyd-destun rhanbarthol* – dealltwriaeth ehangach o rôl Castell-nedd Port Talbot o fewn y rhanbarth ac effaith posibl Bae Abertawe a Bargeinion Dinesig Caerdydd.

*Tueddiadau'r Dyfodol* – rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gyffredinol ac ar yr wyth ardal gymunedol

*Symud ymlaen* – darparu eglurder ar sut y bwriedir defnyddio'r Aseiad, sut fydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut fydd cynllunio llesiant yn mynd rhagddo

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr aseiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Aseiad Llesiant terfynol Castell-nedd Port Talbot a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.